FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

16 - 18 Medi 2003

Rhagair

Mae cynnal awdit o wasanaethau cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i roi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr ac i wella eu hyder mewn perthynas â bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir a bwydydd anifeiliaid. Trwy Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yr awdurdodau mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni'n bennaf.

Mae adroddiad yr awdit sy'n amgaeëdig yn archwilio gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol sydd ar waith i gynnal archwiliadau o fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplu a dadansoddi, rheoli mewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgol. Dylid cydnabod fod y ffordd a'r dull mae awdurdodau unedol yn darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd yn gallu amrywio'n fawr gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae awdit yr Asiantaeth yn asesu cydymffurfiad awdurdod lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd – "Y Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun awdit yw cynnal a chynyddu'r diogelwch a roir i ddefnyddwyr a gwella hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arferion da a darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr Awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

Mae geirfa o dermau technegol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad archwilio ar gael i'ch helpu yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tudalen
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Awdit	**4**
	Cwmpas yr Awdit	**4**
	Cefndir	**5**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Awdit	
3	Trefniadaeth a Rheolaeth	**9**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Dogfenedig	**12**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**13**
6	Cyfleusterau ac Offer	**15**
7	Archwiliadau Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**16**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**20**
9	Egwyddor Awdurdod Cartref	**21**
10	Cyngor i Fusnes	**22**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**23**
12	Archwilio a Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**24**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd	**26**
14	Achosion Diogelwch Bwyd	**27**
15	Gorfodaeth	**28**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio	**31**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**33**
18	Ymgynghori â Sefydliadau Eraill	**34**
19	Monitro Mewnol	**35**
20	Adolygiad gan Gymheiriaid neu Drydydd Parti	**36**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**37**
	Cynllun Gweithredu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	**38**
	Atodiad	
A.	Geirfa	**45**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r awdit dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Bydd rhaid i chi dalu ffi atgynhyrchu a thrafod o £7.50 a £1.50 am bostio a phacio.

Rheswm am yr Awdit

1.2 Rhoddwyd y pŵer i osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Cynhaliwyd yr awdit o wasanaeth bwyd Cyngor Sir Ceredigion dan adran 12(4) y Ddeddf fel rhan o raglen awdit flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Cafodd yr Awdurdod ei archwilio fel rhan o raglen awdit llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Awdit

1.4 Roedd yr awdit yn cwmpasu gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cynhaliwyd elfen ar-safle yr awdit yn swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Elai, Dwyrain Dinas Isaf, Trewiliam, Tonypandy CF40 1NY ar 16-18 Medi 2003.

1.5 Bu'r awdit yn asesu sut i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Safon, gan ddefnyddio protocolau awdit FSA/AP3/1 – FSA/AP21/1. Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth gydag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau awdit ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Mae gan yr Awdurdod boblogaeth o tua 242,000 a dyma'r ail awdurdod mwyaf o blith 22 awdurdod Cymru o ran poblogaeth. Mae arwynebedd y Fwrdeistref Sirol yn 44,000 hectar ac yn ymestyn o Dreherbert a Maerdy ym mhen uchaf Cwm Rhondda i Benderyn ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r A470 yn cysylltu pen uchaf Cwm Cynon trwy dref fawr Pontypridd i'r de yn Ffynnon Taf, yn agos at goridor yr M4 sy'n mynd trwy dde orllewin y Fwrdeistref Sirol ger Tonysguboriau. Mae'r ardal yn eithaf unigryw gyda 3 chwm yn y gogledd lle mae'r cymunedau yn hanesyddol wedi datblygu o gwmpas y diwydiant glo a'r ardaloedd deheuol sydd wedi datblygu o gwmpas prif drefi Pontypridd a Thonysguboriau yn fwy gwledig eu natur. Mae'r Awdurdod yn cynnwys nifer sylweddol o gymunedau difreintiedig sydd wedi'u crynhoi yn y cymoedd. Mae diweithdra ymysg y grŵp oedran economaidd weithgar o 16-64 oed yn 16.9% i ddynion a 4.9% i fenywod. Mae cyfansoddiad ethnig yr Awdurdod yn 99.2% gwyn, 0.1% du, 0.3% Asiaidd a 0.4% o grwpiau ethnig eraill.

1.7 Cynhaliwyd y gwaith o orfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid gan swyddogion y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch a'r Tîm Masnachu Teg, sy'n rhan o Is-adran Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Grŵp y Gwasanaethau Cymunedol.

1.8 Mae Swyddfeydd y Cyngor ar agor o 08:30-17:00 ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd rhif ffôn gwasanaeth argyfwng y tu allan i oriau ar gael yn hawdd i aelodau'r cyhoedd, ac roedd modd cysylltu â swyddog ar y rhif hwn.

1.9 Yn ogystal â gorfodi hylendid bwyd, roedd swyddogion y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch hefyd yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys iechyd galwedigaethol a diogelwch, ymchwiliadau i glefydau heintus sy'n cael eu cludo gan fwyd a dŵr a hybu iechyd, yn cynnwys hyrwyddo bwyd mewn cymunedau. Roedd y swyddogion a oedd yn gorfodi safonau bwyd hefyd yn gyfrifol am bwysau a mesurau, a materion diogelwch a masnachu teg.

1.10 Roedd Cynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod 2003/2004 yn nodi mai 15 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn oedd ar gael i gyflawni gwaith gorfodi hylendid bwyd. Ni roddwyd manylion am yr adnoddau staff oedd yn cyflawni gwaith gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, er bod y Cynllun Gwasanaeth yn nodi fod 6 swyddog yn gyfrifol am orfodi safonau bwyd fel rhan o'u dyletswyddau cyffredinol a bod 1 swyddog yn gyfrifol am orfodi bwydydd anifeiliaid.

1.11 Roedd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2003/2004 yr Awdurdod yn brasamcanu'r amcangyfrif o adnoddau ychwanegol oedd eu hangen i fodloni gofynion Y Safon fel y nodwyd isod:

Amcangyfrif o adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth diogelwch bwyd	**CALl**
Staff ychwanegol ar gyfer hylendid bwyd	3.0
Staff ychwanegol ar gyfer safonau bwyd	3.0
Staff ychwanegol ar gyfer bwydydd anifeiliaid	3.0
CYFANSWM	**9.0**
Adnodd ariannol ychwanegol ar gyfer samplu safonau bwyd = £29,500	

Hysbyswyd yr aelodau o'r adnoddau ychwanegol a oedd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd ac roeddent wedi cytuno i ddyrannu'r cyllid angenrheidiol. Roedd y tri aelod o staff ychwanegol ar gyfer hylendid bwyd wedi'u penodi ar adeg yr awdit ac roedd y broses recriwtio ar droed ar gyfer staff safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

1.12 Roedd yr Awdurdod wedi brasamcanu y byddai angen cyllideb o £472,039 i weithredu'r gwasanaeth yn 2003/2004.

1.13 Roedd adroddiadau monitro yr Awdurdod i'r Asiantaeth yn 2002 yn dangos fod Is-adran Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid mewn 2,134 o safleoedd. Roedd y busnesau bwyd hyn o fewn y sectorau arlwyo a manwerthu'n bennaf. Roedd yr adroddiadau'n dangos fod yr Awdurdod wedi cynnal:

Gweithgarwch gorfodi	**Rhif**
Archwiliadau hylendid bwyd	661
Ymweliadau hylendid bwyd eraill	1180
Archwiliadau safonau bwyd	749
Ymweliadau safonau bwyd eraill	92
Archwiliadau bwydydd anifeiliaid	48
Ymweliadau bwydydd anifeiliaid eraill	0
Samplau anffurfiol	1143
Samplau ffurfiol	818

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau gorfodi pan roedd yn nodi achos o dorri deddfwriaeth ar safle. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion yn codi ynglŷn â'r prosesau cyfreithiol a oedd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn.

2.2 Roedd gan yr Awdurdod hanes o fethu cyrraedd targedau ym maes archwiliadau. Roedd y Cynllun Gwasanaeth hefyd yn dangos fod yna lwyth sylweddol o archwiliadau yn disgwyl cael eu cyflawni. Fodd bynnag, roedd yna dystiolaeth fod gwelliannau sylweddol wedi'u cyflawni yn y 18 mis cyn yr awdit ac roedd aelodau wedi ymrwymo cyllid pellach i'r gwasanaeth. Dylai'r system fonitro fewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar ac ad-drefnu'r gwasanaeth gorfodi bwyd helpu'r materion hyn ymhellach.

2.3 Roedd y cysylltiadau arloesol gyda'r gymuned fusnes, yn arbennig o ran polisïau prynu lleol, yn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i ehangu strategaethau cynghori busnes bwyd.

2.4 Cryfderau'r Awdurdod

Cyngor ar Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd i Fusnes a Hybu Iechyd

Roedd yr Awdurdod wedi datblygu cysylltiadau arloesol gyda'r gymuned fusnes, a oedd yn caniatáu dull ehangach o ymdrin â materion cynghori yn arbennig ym maes polisïau prynu lleol a chyhoeddi cylchlythyr cyngor i gigyddion. Roedd cyfraniad yr Awdurdod at hybu iechyd a'i ddulliau newydd o wneud hynny yn amlwg hefyd.

2.5 Meysydd Allweddol i'w Gwella

Amlder Archwiliadau

Nid oedd ymchwiliadau o hylendid a safleoedd bwyd yn cael eu cynnal mor aml â'r hyn sy'n ofynnol yng Nghod Ymarfer 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd a Chod Ymarfer 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. Mae archwiliadau sy'n cael eu cynnal mor aml â'r gofyn yn sicrhau bod modd nodi risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu busnesau bwyd mewn da bryd.

Gweithgarwch gorfodi

Nid oedd ansawdd rhai o'r gweithredoedd gorfodi a gyflawnwyd yn gyson, yn arbennig y Rhybuddion Gwella, Rhybuddion Gwahardd Brys, achosion o gau gwirfoddol ac o ildio. Bydd systemau monitro mewnol sydd wedi'u dogfennu a'u gweithredu'n dda yn sicrhau gwasanaeth gorfodi effeithiol sydd hefyd yn gyson â Chodau Ymarfer y Ddeddf Ddiogelwch Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

Canfyddiadau'r Awdit

3 Trefniadaeth a Rheolaeth

3.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnwys 75 o Gynghorwyr a oedd yn gweithio mewn dull Cabinet o lywodraethu. Roedd y Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd oedd yn gwneud penderfyniadau ar faterion strategol a gweithredol. Roedd gweddill strwythur yr Awdurdod yn cynnwys y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a 7 pwyllgor arall ynghyd â 4 tasglu prosiect. Roedd diogelwch bwyd yn perthyn i gylch gorchwyl trawsbynciol nifer o Aelodau'r Cabinet.

3.2 Roedd gan yr Awdurdod 6 Chyfarwyddiaeth, a'r Prosiect Bwyd ac Iechyd a Diogelwch a'r Prosiect Masnachu Teg oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth hylendid bwyd, y ddau yn gweithio yn Is-adran Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd dan Gyfarwyddiaeth Grŵp y Gwasanaethau Cymunedol.

3.3 Roedd yr Awdurdod wedi datblygu strategaeth drefniadol i sefydlu cysylltiadau agosach rhwng canghennau gorfodi bwyd y gwasanaeth yn y 2 "brosiect". Cyflawnwyd y swyddogaethau gorfodi rheolaidd gan swyddogion y 2 "brosiect" tra bod materion mwy penodol yn cael eu trafod gan Dîm Rhaglen Fwyd rhithwir a oedd yn cynnwys aelodau o'r ddau "brosiect". Prif swyddogaeth Tîm y Rhaglen Fwyd oedd sicrhau bod gweithgareddau gorfodi bwyd yr Awdurdod wedi'u cydgysylltu â'i gilydd. Roedd y tîm hefyd yn gyfrifol am nodi diffygion yn yr adnoddau oedd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth ac am nodi'r strategaethau oedd eu hangen i fodloni gofynion y Cynllun Gwasanaeth. Er mai yn ddiweddar y cyflwynwyd y tîm roedd yn herio darpariaeth gwasanaeth ac wedi llwyddo i sicrhau adnoddau ychwanegol.

3.4 Mae'r fframwaith cynllunio corfforaethol yn cynnwys y Cynllun Cymunedol sy'n nodi amcanion corfforaethol yr Awdurdod. Roedd Cynllun Busnes drafft yn cysylltu'r amcanion corfforaethol hyn i weithgareddau Is-adran Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd. Roedd y Cynllun Busnes wedi nodi nifer o amcanion gwasanaeth a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth gorfodi bwyd:

- Cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd, tlodi a diogelwch cymunedol trwy dargedu gwasanaethau i'r rhai sydd eu hangen fwyaf;

- Codi proffil yr Is-adran a gwella ei delwedd gyhoeddus;

- Darparu cyfleoedd ar gyfer gwella ansawdd bywyd trwy annog ffyrdd o fyw egnïol ac iachach;

- Recriwtio a chadw staff o safon uchel a chyflawni eu potensial llawn trwy ddatblygiad personol parhaus;

- Cyflawni cyfrifoldebau gorfodi'r Is-adrannau'n effeithiol, yn briodol ac er lles y cyhoedd;

- Gwarchod a gwella ein hamgylchedd trwy fonitro a rheoleiddio effeithiol.

3.5 Roedd y Cynllun Busnes drafft yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth, manylion am berfformiad yn y blynyddoedd blaenorol, ac yn nodi camau gweithredu allweddol a dangosyddion perfformiad. Y dangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd ar gyfer diogelwch bwyd oedd:

- Canran yr archwiliadau o safleoedd bwyd y dylid fod wedi'u cynnal, a gynhaliwyd mewn:
  (a) safleoedd uchel eu risg, a
  (b) safleoedd eraill.

3.6 Yn 2001/2002, cynhaliodd yr Awdurdod 44.8% o archwiliadau mewn safleoedd uchel eu risg ac 16.8% o archwiliadau mewn safleoedd eraill. 97.7% a 59.95% oedd eu perfformiad ar gyfer 2002/2003 yn ôl eu trefn.

3.7 Roedd yr Awdurdod wedi llunio Cynllun Gwasanaeth Bwyd cynhwysfawr ar gyfer 2003/2004, a oedd yn cydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd mewn Awdurdodau Lleol. Nid oedd y Cynllun Gwasanaeth wedi'i gymeradwyo eto gan y fforwm Aelodau perthnasol.

3.8 Roedd y Cynllun Busnes yn rhoi manylion am broses adolygu yn cynnwys cynhyrchu adroddiadau chwarterol i'w cyflwyno i Dîm Rheoli'r Grŵp ac adolygiad llawn ar ddiwedd ei gyfnod gweithredu ym mis Tachwedd 2004. Nid oedd Cynllun Gwasanaeth 2003/2004 yn cynnwys cyfeiriad at adolygu cynllun y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu tasglu craffu i adolygu gwaith "Tîm y Rhaglen Fwyd" yn ystod 2002. Roedd yr adroddiad a gafwyd yn nodi nifer o feysydd ar gyfer gwella, a restrwyd yn y Cynllun Gwasanaeth ac a oedd yn cynnwys:

- Cynyddu nifer yr archwiliadau bwyd uchel eu risg a'r ail-ymweliadau;
- Parhau i ymateb ac ymchwilio'n fuan i gwynion am fwyd gan y cyhoedd;

- Parhau i ymateb yn gynhwysfawr i Rybuddion Perygl i Fwyd;
- Cadw cronfa ddata o safleoedd bwyd;
- Sicrhau bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant strwythuredig parhaus yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Cymwysterau a Hyfforddiant;
- Rhoi trwyddedau i gigyddion;
- Monitro safleoedd cynnyrch penodol;
- Ymateb i achosion o wenwyn bwyd;
- Cyflawni rhaglen samplu bwyd a bwydydd anifeiliaid gynhwysfawr;
- Darparu hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Addysgu busnesau a'r cyhoedd ar faterion diogelwch bwyd.

Argymhellion

3.9 Dylai'r Awdurdod:

(i) Gyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth i'w gymeradwyo gan aelodau. [Y Safon – 3.1]

(ii) Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r adolygiad yn cael ei ddogfennu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Dogfenedig

4.1 Nid oedd gan yr Awdurdod system reoli i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer pob un o'r gweithgareddau gorfodi a ddaw dan y Safonau yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth yn dangos fod nifer o bolisïau wedi'u hadolygu.

4.2 Roedd staff yn gallu cael gafael ar gopïau caled o wyddoniaduron cyfraith bwyd masnachol a chopïau caled o'r holl ddogfennaeth a oedd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni gweithgareddau gorfodi, yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau priodol. Roedd staff yn gallu cael gafael ar yr un dogfennau trwy gyfleuster ar-lein. Roedd yr Awdurdod hefyd yn tanysgrifio i sefydliad ymchwil bwyd gwyddonol.

Argymhelliad

4.3 Dylai'r Awdurdod:

Ddatblygu a gweithredu system reoli i sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd yr Awdurdod wedi penodi swyddogion arweiniol gyda'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol ar gyfer gorfodi hylendid bwyd ac ar gyfer gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

5.2 Roedd yr Awdurdod wedi adolygu a diweddaru eu cynllun dirprwyo ym mis Mai 2003. Roedd y cynllun yn awdurdodi Cyfarwyddwyr Grŵp i gyflawni eu dyletswyddau ar ran yr Awdurdod ac yn awdurdodi swyddogion eraill yn yr Awdurdod fel bo angen.

5.3 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu gweithdrefn ddrafft i awdurdodi swyddogion ym mis Gorffennaf 2003. Roedd hon yn cynnwys matrics awdurdodi a oedd yn cwmpasu'r timau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd y matrics hefyd yn nodi fod yr holl swyddogion eraill yn nhimau iechyd yr amgylchedd a safonau masnach wedi'u hawdurdodi i wneud gwaith gorfodi bwyd, heb gyfeirio at hyfforddiant a phrofiad perthnasol. Yn ymarferol, fodd bynnag, nid oedd y swyddogion hyn wedi cynnal unrhyw archwiliadau.

5.4 Roedd yr Adran yn gweithredu gwasanaeth y tu allan i oriau a oedd yn cynnwys swyddogion nad oedd yn gwneud gwaith gorfodi bwyd fel rheol ond a gafodd eu hawdurdodi'n llawn i wneud hynny dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

5.5 Roedd yr Awdurdod wedi cyflogi nifer o gontractwyr i gyflawni archwiliadau hylendid bwyd mewn safleoedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Dywedwyd wrth yr archwilwyr fod yr ymgynghorwyr yn ddarostyngedig i'r system fonitro fewnol ddrafft a bod eu cymwysterau a'u cofnodion hyfforddi wedi'u gwirio. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ar gael. Roedd cydweithwyr wedi mynd gyda'r contractwyr i wneud yr archwiliadau dilysu ac roedd cofnodion y rhain ar gael i'r archwilwyr.

5.6 Roedd yr Awdurdod wedi nodi swyddogion penodol o dîm Prosiect Bwyd ac Iechyd a Diogelwch i arwain mewn meysydd gweithgarwch gorfodi penodol. Roedd y rhain yn cynnwys archwilio Safleoedd Cymeradwy a chigyddion, clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, ymgynghori â gweithrediadau arlwyo'r Awdurdod, hyfforddiant hylendid bwyd mewn ieithoedd tramor a gwobr bwyta'n iach.

5.7 Roedd gan y gwasanaeth statws Buddsoddwyr mewn Pobl gyda chynllun arfarnu ar waith a oedd yn cynnwys Trafodaeth Datblygiad Personol gyda rheolwr llinell y swyddog. Nid oedd yr Awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ffurfiol ar gyfer datblygu rhaglen hyfforddi ond roedd wedi cynhyrchu cynlluniau hyfforddi a datblygu staff ar gyfer y

gwasanaeth a oedd yn cynnwys cyfeiriad at anghenion hyfforddi penodol unigolion.

5.8 Roedd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o gymwysterau swyddogion unigol a'r hyfforddiant a gawsant ond er bod rhai cofnodion o gynnwys, amcanion a hyd cyrsiau ac asesiad o hyfforddiant yn cael eu cadw roedd hyn yn cael ei wneud ad hoc.

5.9 Er nad oedd dadansoddiad o'r gyllideb oedd ar gael ar gyfer darparu hyfforddiant yn y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd ar adeg yr awdit, roedd hi'n amlwg o nifer y cyrsiau a ddilynwyd a'u perthnasedd fod yr Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu hyfforddiant priodol i'w staff.

Argymhellion

5.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y weithdrefn ddogfenedig ddrafft i awdurdodi swyddogion yn cael ei hadolygu a'i gweithredu'n llawn. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau bod yr holl staff a oedd wedi'u hawdurdodi i gyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd yn derbyn hyfforddiant priodol a bod ganddynt brofiad addas. [Y Safon – 5.3]

(iii) Sefydlu rhaglen hyfforddiant ddogfenedig a chofnodi cynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wneir o'r cyrsiau hyfforddi a fynychwyd. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi darparu'r holl offer a chyfleusterau oedd yn angenrheidiol fel bod modd cynnal yr holl weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth.

6.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi, cynnal a gofalu am offer a ddefnyddiwyd i samplu ac archwilio gan swyddogion. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion am yr offer penodol i'w raddnodi, pa mor aml y gwnaed archwiliadau, y dull o raddnodi, goddefiant derbyniol ar gyfer yr offer a'r camau gweithredu i'w cymryd pan fo canlyniadau y tu allan i'r goddefiant.

6.3 Roedd meddalwedd gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth ystadegol oedd yn ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gorfforaethol i sicrhau bod systemau priodol wrth gefn ar waith i leihau'r risg o lygredd neu golli gwybodaeth a gedwid mewn cronfeydd data.

Argymhelliad

6.4 Dylai'r Awdurdod:

Adolygu'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i wirio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd Rheoliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 6.2]

7 Archwiliadau Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Yn ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2003/2004 nododd yr Awdurdod bod ganddo 2075 o safleoedd bwyd ar ei gronfa dda:

Categori Risg	**Rhif**	**%***
A	110	5
B	368	18
C	781	38
D	379	18
E	247	12
F	98	5
Di-radd	92	4
CYFANSWM	**2075**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

7.2 Roedd yr Awdurdod wedi nodi 37 safle fel rhai trwyddedig dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cig) (Diwygio) (Cymru) 2000, ac wedi cymeradwyo 17 safle dan ddeddfwriaeth cynnyrch penodol (Safleoedd Cymeradwy).

7.3 Archwiliwyd hanes archwilio 10 safle cyffredinol a 4 Safle Cymeradwy. Nid oedd 6 safle cyffredinol a 2 Safle Cymeradwy wedi'u harchwilio'n ddigon rheolaidd yn ôl gofynion Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd.

7.4 Dangosodd adroddiad cyfrifiadurol a gynhyrchwyd yn ystod yr awdit fod yr archwiliadau canlynol yn dal heb eu gwneud gan yr Awdurdod:

Categori Risg	**Nifer sy'n hwyr**
A	10
B	0
C	0
D	77
E	135
F	25
Di-radd	53
CYFANSWM	**300**

7.5 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi diwygio gweithdrefn ddogfenedig yn ymwneud ag archwilio safleoedd cyffredinol a safleoedd cigyddion trwyddedig, a oedd yn cynnwys diagramau llif gweithdrefnol,

ffurflenni archwilio ac enghreifftiau o lythyrau safonol. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi cynhyrchu gweithdrefnau dogfenedig yn ymwneud ag archwilio Safleoedd Cymeradwy. Roedd y rhain hefyd yn cynnwys diagramau llif gweithdrefnol, ffurflenni archwilio a nifer o lythyrau safonol yn ymwneud â'r broses gymeradwyo.

7.6 Roedd swyddogion gydag awdurdod priodol wedi cynnal archwiliadau o safleoedd cyffredinol ac wedi darparu cyfradd risg cywir, yn unol â chanllawiau swyddogol. Cymerwyd camau gweithredu dilynol priodol yn y rhan fwyaf o achosion o fethu â chydymffurfio, yn cynnwys ail-ymweliadau o fewn yr amser priodol.

7.7 Roedd adroddiadau wedi'u hanfon at berchnogion yn dilyn yr holl archwiliadau o safleoedd cyffredinol. Roedd yr adroddiadau'n glir a'r gofynion cyfreithiol yn wahanol i'r argymhellion. Cafodd y gwaith oedd angen ei wneud yn dilyn yr archwiliadau ei nodi'n glir, gan ystyried Canllawiau'r Diwydiant ac roedd yn gyson â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Roedd y cyfeiriadau cyfreithiol yn gywir ym mhob achos.

7.8 Nid oedd 2 o'r 4 ffeil Safle Cymeradwy a archwiliwyd yn cynnwys dogfen gymeradwyo ac o'r 2 ddogfen gymeradwyo a oedd yn bresennol nid oedd 1 yn cynnwys y datganiad fod cymeradwyaeth yn dibynnu ar gydymffurfio.

7.9 Archwiliwyd deg ffeil a oedd yn gysylltiedig â safleoedd cigyddion trwyddedig. Defnyddiwyd ffurflenni cais ac archwilio safonol. Roedd y ceisiadau wedi'u penderfynu o fewn 28 diwrnod. Yn achos 6 ffeil, roedd tystiolaeth fod yna ychydig o waith yn dal heb ei wneud ar y safle er bod yr Awdurdod wedi rhoi trwydded. Yn achos y safleoedd cymysg, nid oedd y drwydded yn nodi i ba ardal o'r safle yr oedd yn berthnasol.

Argymhellion

7.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau bod y broses o archwilio a thrwyddedu safleoedd cigyddion ac archwilio a chymeradwyo Safleoedd Cymeradwy yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol perthnasol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gymeradwyaethau cyfredol. [Y Safon – 7.2]

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.11 Yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2003/2004 roedd yr Awdurdod yn nodi bod archwiliadau safonau bwyd wedi eu cynnal mewn 1870 o safleoedd a bod archwiliadau bwydydd anifeiliaid wedi eu cynnal mewn tua 600 o safleoedd.

Archwiliadau Safonau Bwyd

Categori Risg	**Rhif**	**%***
Uchel	34	2
Canolig	1056	56
Isel	699	37
Dim Risg i'w Archwilio	46	3
Di-radd	35	2
CYFANSWM (Safleoedd wedi'u graddio)	**1870**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

7.12 Archwiliwyd hanes archwilio 10 safle mewn perthynas ag archwiliadau safonau bwyd. Roedd y cyfan wedi'u hasesu'n gywir am risg ac wedi'u harchwilio gan swyddog awdurdodedig priodol er nad oedd 2 wedi'u harchwilio'n ddigon rheolaidd yn ôl gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd.

7.13 Dangosodd adroddiad cyfrifiadurol a gynhyrchwyd yn ystod yr awdit fod yr archwiliadau canlynol yn dal heb eu gwneud gan yr Awdurdod:

Categori	**Nifer sy'n hwyr**
Uchel	0
Canolig	66
Isel	170
Di-radd	43
CYFANSWM	**279**

7.14 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ddrafft ar archwiliadau safonau bwyd, a oedd yn cynnwys ffurflen adrodd am archwiliad diwygiedig a choeden benderfynu i weld a oedd angen ail-ymweliad. Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ar archwilio safleoedd bwydydd anifeiliaid.

7.15 Yn gyffredinol, roedd archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata, a chopïau caled o adroddiadau archwilio'n cael eu gadael yn dilyn archwiliadau diweddar. Roedd y wybodaeth am safleoedd yn gyfyngedig ac yn gyffredinol nid oedd digon o wybodaeth yn y ffeiliau i

asesu a gynhaliwyd yr archwiliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu a aseswyd cydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol.

7.16 Nid oedd cofnodion archwiliadau safleoedd bwydydd anifeiliaid yn cynnwys llawer o fanylion a chafwyd gwybodaeth yn ystod ymweliadau yn ymwneud â gweithgareddau gorfodi iechyd a lles anifeiliaid. Roedd yr Awdurdod yn y broses o ymweld â'i holl safleoedd oedd yn cadw da byw, a dywedwyd wrth yr archwilwyr y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lunio rhaglen archwilio ar gyfer bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

7.17 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Diwygio'r weithdrefn archwilio ddogfenedig ddrafft i gynnwys yr ystod lawn o archwiliadau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a gynhelir a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 7.4]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi dogfenedig yn ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd a gweithdrefnau yn gysylltiedig â chwynion am hylendid bwyd a safonau masnachu cyffredinol. Cynhyrchwyd gweithdrefn ddrafft ar gwynion am safonau bwyd hefyd.

8.2 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 9 o gwynion am hylendid bwyd. Roedd hi'n ymddangos fod y cwynion wedi'u hymchwilio'n briodol. Fodd bynnag, mewn 2 achos nid oedd yr Awdurdod wedi cadarnhau canlyniadau'r ymchwiliad gyda'r achwynydd ac mewn 3 achos nid oedd yr Awdurdod wedi cadarnhau canlyniadau'r ymchwiliad gyda'r manwerthwr.

8.3 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau yn ymwneud ag 8 o gwynion am safonau bwyd. Ym mhob achos, roedd hi'n ymddangos fod ymchwiliad trylwyr a phriodol wedi'i gynnal gyda'r holl bartïon yn cael eu hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliadau a chofnodion priodol wedi'u cynnwys mewn ffeiliau.

8.4 Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw gwynion am fwydydd anifeiliaid.

8.5 Roedd yr Awdurdod yn cofnodi ceisiadau am gyngor am fwyd a safleoedd bwyd, mewn dull tebyg i gwynion am fwyd a safleoedd bwyd. Nid oedd yr adroddiadau cyfrifiadurol a ddarparwyd gyda'r holiadur cyn-ymweld fel petai'n gallu gwahaniaethu rhwng y ddau gategori. Fodd bynnag, wrth wirio'r data monitro gwelwyd mai cwynion gwirioneddol yn unig a anfonwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Argymhelliad

8.6 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod canlyniad pob ymchwiliad yn cael ei hysbysu i achwynyddion a manwerthwyr. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor Awdurdod Cartref

9.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2003/2004 yn datgan fod yr Awdurdod yn cefnogi'r Egwyddor Awdurdod Cartref yn llwyr. Nid oedd gan yr Awdurdod drefniadau Awdurdod Cartref ffurfiol, ond roedd yn gweithredu ar sail anffurfiol gyda nifer o weithgynhyrchwyr lleol.

9.2 Roedd swyddogion yn edrych ar wefan Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol (LACORS) i weld Awdurdodau Cartref rhestredig. Roedd y ffeiliau a archwiliwyd yn dangos fod sylw priodol wedi'i roi i'r wybodaeth a gafwyd yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cartref yn ystod yr ymchwiliadau. Cafwyd tystiolaeth hefyd fod cyngor wedi'i roi ar faterion Awdurdod Cartref i awdurdodau gorfodi a oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth.

10 Cyngor i Fusnes

10.1 Yn ogystal â'r cyngor a roddwyd yn ystod yr archwiliadau, roedd y gwasanaeth yn gallu dangos dulliau eraill a ddefnyddir i helpu busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Darparu cyrsiau hylendid bwyd "mewnol" ar gyfer busnesau lleol ar lefel sylfaen a chanolradd;
- Darparu hyfforddiant Dadansoddi Peryglon am ddim i rai sy'n Trafod Bwyd mewn safleoedd categori A a B;
- Darparu posteri cynghori ar elfennau allweddol system reoli bwyd;
- Cynghori gweithrediadau arlwyo'r Awdurdod ar safonau priodol wrth gynhyrchu manylebau contract;
- Sefydlu Fforwm Cigyddion i drafod materion, yn cynnwys gofynion hylendid ac olrhain cig. Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu canllawiau dogfen ar ofynion labelu i gigyddion hefyd;
- Bod yn rhan weithgar o Bartneriaeth Bwyd Amaeth y De Ddwyrain, sefydliad sy'n hyrwyddo cynnyrch lleol i ddefnyddwyr;
- Cymryd rhan weithgar ym Mhrosiect Braenaru Menter Gaffael Cymru – Datblygu BBaChau: Sector Bwyd. Nod y sefydliad hwn yw datblygu a gwella polisïau ac arferion prynu bwyd yng Nghymru.

10.2 Nid oedd tystiolaeth i awgrymu fod yr Awdurdod yn darparu cyngor ar fwydydd anifeiliaid i fusnesau.

Argymhelliad

10.3 Dylai'r Awdurdod:

Gynnwys cyngor ar fwydydd anifeiliaid yn ei gyngor i fusnesau.
[Y Safon – 10.1]

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata gyfrifiadurol o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno gweithdrefn i sicrhau cywirdeb ei gronfa ddata o safleoedd. Roedd hon yn cynnwys ffurflen safonol i ddiweddaru gwybodaeth am safleoedd. Roedd manylion am safleoedd yn cael eu diweddaru ar ôl derbyn ffurflenni cofrestru, ar ôl ail-ymweld â'r safleoedd a thrwy gyfeirio at gofnodion sy'n cael eu cadw gan adrannau eraill ac mewn cyfeiriaduron masnach masnachol.

11.3 Roedd swyddogion yn gallu cael mynediad i'r cronfeydd data trwy ddefnyddio cyfrinair, ac wedi'u hatal rhag creu neu ddileu cofnodion. Roedd y mesurau diogelwch i atal mynediad a diwygio gan unigolion heb awdurdod wedi'u cynnwys yn y weithdrefn. Fodd bynnag, nid oedd cyfrineiriau'n cael eu newid yn rheolaidd.

11.4 Archwiliwyd y gronfa ddata ar gyfer 12 busnes bwyd a gafodd eu nodi ar hap o gyfeiriadur busnes cyfredol. Roedd pob safle wedi'i gynnwys ar gronfa ddata'r Awdurdod ac wedi'u cynnwys yn y rhaglenni archwilio perthnasol.

12 Archwilio a Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod wedi eu hachredu'n briodol.

12.2 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu polisi samplu dogfenedig manwl a oedd yn cynnwys samplu microbiolegol, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ac yn cyfeirio at samplu yn unol â rhaglenni grŵp samplu lleol a chenedlaethol, ynghyd â safleoedd uchel eu risg, Safleoedd Cymeradwy a safleoedd Awdurdod Cartref a Gwreiddiol.

12.3 Yn ei adroddiadau monitro i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2002, nododd yr Awdurdod ei fod wedi cymryd 1961 o samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid gydag 818 ohonynt yn samplau ffurfiol.

12.4 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu gweithdrefn samplu a oedd yn cwmpasu samplu microbiolegol a safonau bwyd. Roedd y Prosiect Masnachu Teg hefyd wedi cynhyrchu polisïau safonau bwyd cyffredinol ar samplu, arolygon, cludo samplau at y Dadansoddwr Cyhoeddus, cymryd samplau bwyd ffurfiol a samplau bwydydd anifeiliaid ffurfiol.

12.5 Roedd cynllun samplu wedi'i lunio ar gyfer 2003/2004 a oedd yn cynnwys samplau safonau bwyd, microbiolegol a bwydydd anifeiliaid. Fodd bynnag, roedd y cynllun yn gyffredinol ei natur – er ei fod yn nodi'r mathau o fwyd a bwydydd anifeiliaid i'w samplu nid oedd yn darparu unrhyw wybodaeth am y safleoedd lle roedd y samplau i'w cymryd.

12.6 Archwiliwyd cofnodion 10 o samplau bwyd anfoddhaol. Yn gyffredinol, nid oedd digon o dystiolaeth yn y ffeiliau i benderfynu a gymerwyd camau gweithredu priodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod. Fodd bynnag, wrth drafod gyda swyddogion samplu yn ystod yr awdit clywyd bod yr Awdurdod wedi cysylltu â rhai safleoedd i nodi materion a allai fod wedi arwain at y samplau anfoddhaol.

12.7 Roedd hi'n ymddangos fod dogfennaeth ynglŷn â phenodiadau i swyddi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol yr Awdurdod yn anghyson gyda gofynion i benodi unigolion a oedd yn bodloni meini prawf penodol y swyddi hyn.

Argymhellion

12.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â samplau anfoddhaol yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod. [Y Safon – 12.6]

(ii) Adolygu a diweddaru penodiadau i swyddi Dadansoddwr Cyhoeddus ac Amaethyddol yr Awdurdod, gan ystyried holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Codau Ymarfer cysylltiedig â Deddf Amaethyddiaeth 1970. [Y Safon – 12.7]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar reoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, a luniwyd ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd, Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd a sefydliadau perthnasol eraill ym mis Mehefin 2003 i ystyried newidiadau a gyflwynwyd gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru a byrddau iechyd lleol.

13.2 Archwiliwyd y cofnod ffeil a oedd yn ymwneud â'r 1 achos diweddar o glefyd heintus yn gysylltiedig â bwyd. Roedd hwn yn nodi fod yr Awdurdod wedi cynnal ymchwiliad trylwyr a oedd wedi arwain at gyflwyno Rhybudd Gwahardd Brys ar un safle ac wedi nodi nifer o faterion yn ymwneud ag addasrwydd ail safle a ddefnyddiwyd ar gyfer busnes arlwyo mawr. Digwyddodd yr achos 8 mis cyn cyhoeddi'r weithdrefn achosion gyfredol ac nid oedd copi o weithdrefn yr adeg honno ar gael. Fodd bynnag, dangosodd y ffeil fod yr ymchwiliad wedi'i gynnal yn fras yn unol â'r weithdrefn gyfredol. Mae'n ymddangos fod yna faterion wedi codi ynglŷn ag ymgynghori â Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd ac Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, y ddau y tu allan i reolaeth yr Awdurdod i ryw raddau.

13.3 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar rybuddion unigol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd hefyd yn defnyddio holiadur a llythyrau safonol i'w hymchwilio.

13.4 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau 11 rhybudd unigol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd ymchwiliadau boddhaol wedi'u cynnal mewn 4 ohonynt. Fodd bynnag, roedd cofnodion yr ymchwiliadau eraill naill ai ar goll neu ddim digon manwl i allu gweld a gynhaliwyd ymchwiliadau priodol ai peidio ac roedd llythyrau safonol yn gofyn am wybodaeth wedi'u hanfon yn hwyr neu nid oedd cofnod eu bod wedi'u hanfon o gwbl.

Argymhelliad

13.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i rybuddion unigol am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 13.2]

14 Achosion Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig ar ddelio â Rhybuddion Perygl i Fwyd (FHW) a dderbyniwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac er mwyn dechrau camau gweithredu mewn perthynas ag achosion a nodwyd yn lleol. Roedd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau.

14.2 Roedd system gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu derbyn Rhybuddion Perygl i Fwyd.

14.3 Cadwyd cofnodion o ymateb yr Awdurdod i'r Rhybuddion Perygl i Fwyd mewn ffeil copi caled. Roedd yr holl Rybuddion a dderbyniodd yr Awdurdod wedi'u hymchwilio'n briodol a'r canlyniad wedi'i gofnodi.

14.4 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na fu unrhyw achosion lleol difrifol neu broblem ddiogelwch bwyd ehangach yn y ddwy flynedd ddiwethaf a oedd angen eu hysbysu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol â Chod Ymarfer Deddf Diogelwch Bwyd Rhif 16: Gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd mewn perthynas â'r System Rhybuddion Perygl i Fwyd.

15 Gorfodaeth

Cyffredinol

15.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi gorfodi diogelwch bwyd dogfenedig a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau swyddogol ac wedi'i gymeradwyo gan fforwm aelodau perthnasol yr Awdurdod Lleol. Ond nid oedd hi'n glir o'r dystiolaeth pryd y cymeradwywyd y polisi.

15.2 Nid oedd yr Awdurdod wedi darparu'r polisi neu grynodeb cywir ohono i'r cyhoedd a busnesau bwyd.

15.3 Roedd yr Awdurdod wedi cyflawni'r gweithgareddau gorfodi ffurfiol canlynol yn y 2 flynedd cyn yr awdit:

7 achos o erlyn;
4 rhybudd ffurfiol;
11 Rhybudd Gwahardd Brys;
23 safle wedi cael Rhybudd i Wella;
5 achos o gau gwirfoddol;
33 achos o ildio bwyd yn wirfoddol.

Hylendid Bwyd

15.4 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu gweithdrefn orfodi ar weithgareddau gorfodi, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at Orchmynion a Rhybuddion Gwahardd Brys, cadw ac atafael bwydydd, a gweinyddu rhybuddion ffurfiol.

15.5 Archwiliwyd dau rybudd ffurfiol a 5 ffeil erlyn. Roedd pob ffeil yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y broses ymchwilio, yn ystyried gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 ac yn cynnwys cofnod i nodi bod y polisi gorfodi wedi'i ystyried. Fodd bynnag, mewn 5 achos cafwyd oedi diangen yn y broses ac yn achos 1 rhybudd ffurfiol roedd yr oedi mewn rhoi rhybudd yn ddigon i atal unrhyw gamau gweithredu pellach pe byddai'r derbynnydd wedi gwrthod ei dderbyn. Yn achos yr 1 rhybudd ffurfiol a nodwyd gan yr Awdurdod nid oedd y drosedd yn ymwneud â hylendid bwyd, felly roedd yr adroddiadau ystadegol a anfonwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn anghywir.

15.6 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau 6 Rhybudd Gwahardd Brys. Mewn 5 achos, roedd y broses o gyflwyno'r rhybudd yn cydymffurfio â pholisi gorfodi'r Awdurdod. Nid oedd 1 ffeil yn cynnwys digon o dystiolaeth i benderfynu pa gamau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r rhybudd. Nid oedd 4 ffeil yn cynnwys tystiolaeth fod ymweliadau

monitro wedi'u cynnal ar y safle i wirio cydymffurfiaeth ac nid oedd 3 ffeil yn cynnwys tystiolaeth fod y Gorchymyn Gwahardd Brys a gyflwynwyd gan y llys wedi'i roi i'r perchennog. Mewn 1 achos roedd yna dystiolaeth o broblem barhaus ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth, gyda'r swyddog gorfodi yn gwneud sawl ymweliad cyn codi'r Gorchymyn yn y pen draw. Fodd bynnag, nid oedd y ffeil yn cynnwys cais ysgrifenedig am godi'r Rhybudd neu'r Gorchymyn am risg parhaus i iechyd gan yr Awdurdod.

15.7 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau 4 achos o gau gwirfoddol. Mewn 1 achos nid oedd digon o wybodaeth i benderfynu a gymerwyd camau gweithredu priodol ai peidio. Roedd y 3 achos arall o gau gwirfoddol wedi'u cadarnhau'n ysgrifenedig gyda'r perchennog ond dim ond 2 achos oedd yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau wedi'u cynnal i sicrhau bod y safleoedd yn parhau ar gau.

15.8 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau 11 Rhybudd i Wella. Yn gyffredinol, roedd yr achos o dorri'r rheolau wedi'i nodi gyda'r geiriad yn glir ac yn hawdd i'w ddeall. Rhoddwyd terfynau amser clir a gwybodaeth briodol am y weithdrefn apelio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd Rhybuddion i Wella yn cael eu drafftio a'u cyflwyno yn unol â Chod Ymarfer Rhif 5 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Defnyddio Rhybuddion i Wella, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

15.9 Nid oedd enw llawn y perchennog wedi'i roi mewn 5 achos. Mewn 2 achos nid oedd geiriad y disgrifiad o dorri'r rheolau a'r gwaith oedd ei angen wedi'i nodi'n glir. Mewn 4 achos, ni wiriwyd cydymffurfiaeth pan roedd angen, ac ni chymerwyd camau gweithredu dilynol priodol mewn 3 achos.

15.10 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau 10 achos o ildio gwirfoddol. Yn gyffredinol, nid oedd cofnodion yn ddigon manwl i allu penderfynu a oeddynt yn cydymffurfio'n llawn gyda Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a'r canllawiau swyddogol perthnasol. Dim ond dwy ffeil oedd yn cynnwys tystysgrif ildio ac nid oedd yr un ffeil yn cynnwys tystiolaeth fod y bwyd wedi'i waredu'n gywir. Dywedwyd wrth yr archwilwyr fod yr Awdurdod wrthi'n drafftio gweithdrefn a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

15.11 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu nifer o weithdrefnau cyffredinol ar weithgareddau gorfodi yn y Gwasanaeth Safonau Masnachu a oedd yn cynnwys gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys ymdrin ag achosion o droseddu, coladu ffeiliau erlyn, erlyn prif swyddfeydd cwmnïau mawr, tystiolaeth a

phwerau mynediad, gwarantau a datganiadau.

15.12 Dywedwyd wrth yr archwilwyr nad oedd gweithgareddau gorfodi wedi'u cynnal mewn perthynas â safonau bwyd na bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

15.13 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod ei bolisi gorfodi neu grynodeb cywir ohono ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal. [Y Safon – 15.1]

(ii) Gweithredu ei weithdrefnau gorfodi'n llawn i sicrhau bod yr holl weithgareddau perthnasol yn arbennig erlyniadau, rhybuddion ffurfiol, Rhybuddion Gwahardd Brys a Rhybuddion i Wella yn cael eu cyflawni yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio

Hylendid Bwyd

16.1 Roedd hi'n bosib cael gafael ar gofnodion papur a chronfa ddata o safleoedd bwyd ac roedd y rhain wedi'u cadw am y 6 blynedd sy'n ofynnol gan Y Safon.

16.2 Archwiliwyd cofnodion y 10 safle cyffredinol lle cynhaliwyd archwiliadau o hylendid bwyd. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion am faint y busnes, y math o weithgarwch bwyd, gwybodaeth am hyfforddiant hylendid neu asesiad o gydymffurfiaeth dadansoddi peryglon y busnes.

16.3 Archwiliwyd cofnodion 4 Safle Cymeradwy hefyd. Roedd tair o'r ffeiliau hyn yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a chofnodion manwl. Mewn 1 ffeil, roedd manylion fel archwiliad cyn-cymeradwyo, cynllun pwyntiau dŵr y safle a chynlluniau tynnu yn ôl mewn argyfwng ar goll.

16.4 Archwiliwyd deg ffeil oedd yn ymwneud â thrwyddedu siopau cigyddion. Yn gyffredinol, roedd cofnodion y ffeiliau'n cynnwys manylion am gydymffurfio â gofynion hyfforddiant a HACCP. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflen cofnodi archwiliad yn rhoi lle ar gyfer disgrifio gweithrediadau'r safle yn fanwl, ac felly roedd hi'n amhosib asesu a oedd y safle yn dod dan gwmpas rheoliadau trwyddedu cigyddion.

16.5 Roedd yr Awdurdod yn cyhoeddi adroddiad archwilio neu lythyr dilynol ar ôl pob archwiliad hylendid bwyd, a oedd yn nodi'r rheswm am unrhyw waith neu gamau gweithredu angenrheidiol, yn nodi amserlenni priodol ar gyfer gweithredu ac yn dyfynnu cyfeiriadau deddfwriaethol cywir.

16.6 Roedd cofnodion ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ar goll ym 4 o'r 11 achos a archwiliwyd.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

16.7 Roedd hi'n bosib cael gafael ar gofnodion papur a chronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid ac roedd y rhain wedi'u cadw am y 6 blynedd sy'n ofynnol gan Y Safon, er bod cofnodion ffeiliau safleoedd bwyd cyffredinol a safleoedd bwydydd anifeiliaid yn gyfyngedig.

16.8 Roedd copïau o adroddiadau archwiliadau ar goll o 3 ffeil ac roedd y ffurflenni ôl-archwiliad yn brin o wybodaeth am systemau ansawdd, a deunyddiau ac eitemau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. Nid oedd llawer o wybodaeth am gylchdroi stoc a phacio a labelu cynnyrch ychwaith.

Argymhelliad

16.9 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am safonau bwyd, ymchwiliadau clefydau heintus, safleoedd cigyddion trwyddedig a Safleoedd Cymeradwy yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a hanes o gydymffurfio. [Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn cwynion gorfforaethol a oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Safon.

17.2 Roedd gwybodaeth am y weithdrefn ar gael yn nerbynfa'r Adeilad Dinesig.

17.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr nad oedd cwynion wedi'u cofnodi yn erbyn y gwasanaeth yn y 2 flynedd cyn yr awdit.

18 Ymgynghori â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau ymgynghori gydag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodaeth gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan yn y canlynol:

- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd y De Ddwyrain;
- Grŵp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy y De Ddwyrain;
- Grŵp Safonau Bwyd ac Amaethyddiaeth Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Grŵp Safonau Masnach Morgannwg.

Cadwyd cofnodion y cyfarfodydd hyn a oedd yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolydd y gwasanaeth.

19 Monitro Mewnol

19.1 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ansawdd fewnol ddogfenedig a oedd yn cynnwys cyfeiriad at fonitro meintiol ac ansoddol. Roedd y dulliau a amlinellwyd yn y weithdrefn yn cynnwys:

- Monitro gwaith papur a gynhyrchwyd yn dilyn archwiliadau;
- Archwiliadau dilysu gyda chydweithiwr;
- Cyfarfodydd tîm;
- Cyfweliadau datblygiad personol;
- Cynefino swyddogion newydd.

19.2 Cafwyd tystiolaeth o fonitro ansoddol a meintiol anffurfiol yn cynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad trwy adroddiadau mewnol a phwyllgorau a bwletinau aelodau;
- Cyfarfodydd tîm i drafod materion dehongli;
- Adolygu gohebiaeth;
- Archwiliadau anffurfiol gyda chydweithiwr o swyddogion yr Awdurdod ei hun a chontractwyr allanol.

20 Adolygiad gan Gymheiriaid neu Drydydd Parti

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan yng Nghynllun Awdit rhyng-Awdurdod Cymru Gyfan ym 1999.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Cafwyd tystiolaeth fod yr Awdurdod yn gwneud gwaith hyrwyddo diogelwch bwyd a oedd yn cynnwys:

- Cymryd rhan yn Wythnos Ddiogelwch Bwyd Genedlaethol Foodlink a oedd yn cynnwys sgyrsiau i grwpiau mam a'i phlentyn ac ysgolion;
- Darparu hyfforddiant ar hylendid bwyd i blant ysgol;
- Cymryd rhan yng Nghynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru.
- Cyhoeddi cyngor cyffredinol ar hylendid bwyd a oedd yn berthnasol i arlwyo dros gyfnod y Nadolig;
- Cynhyrchu canllaw labelu bwyd i'r cyhoedd.

Archwilwyr: **Nick Wellington**
Jane Davies
Rob Wilkins
Keith Blake

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

CYNLLUN GWEITHREDU I: CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Dyddiad awdit: 16-18 Medi 2003

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
1. Sicrhau bod Cynllun Gwasanaeth 2004/2005 yn cynnwys adolygiad o Gynllun Gwasanaeth 2003/2004	03/09/04	3.9 (ii) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r adolygiad yn cael ei ddogfennu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]	
2. Datblygu a gweithredu system reoli ddogfenedig (ar gyfer hylendid bwyd).	31/10/04	4.3 Dylai'r Awdurdod: Ddatblygu a gweithredu system reoli i sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.2]	Fersiwn drafft ar hyn o bryd.
3. Adolygu gweithdrefn reoli ddogfenedig. Diweddaru llawlyfr Rheoli Ansawdd (ar gyfer safonau bwyd).	01/12/04		Rheolwr Ansawdd i adolygu gweithdrefn reoli ddogfenedig.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
4. Mabwysiadu a gweithredu'n llawn y weithdrefn ddogfenedig ddrafft ar gyfer awdurdodi swyddogion.	31/05/04	5.10(i) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod y weithdrefn ddogfenedig ddrafft i awdurdodi swyddogion yn cael ei hadolygu a'i gweithredu'n llawn. [Y Safon – 5.1]	Proses ar droed.
5. Sicrhau bod staff sydd wedi'u hawdurdodi i gyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd a gynlluniwyd yn cynnwys contractwyr sy'n gweithio i ddarparu'r gwasanaeth bwyd, yn derbyn hyfforddiant priodol, a bod ganddynt brofiad a chymwysterau addas.	01/01/04	5.10(ii) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod yr holl staff a oedd wedi'u hawdurdodi i gyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd yn derbyn hyfforddiant priodol a bod ganddynt brofiad addas. [Y Safon – 5.3]	Bydd staff yn derbyn hyfforddiant parhaus. Cynllun eisoes ar waith i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant.
6. Cofnodi cynnwys, amcanion, hyd a gwerthusiad cyrsiau hyfforddi a fynychwyd.	01/01/04	5.10(iii) Dylai'r Awdurdod: Sefydlu rhaglen hyfforddiant ddogfenedig a chofnodi cynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wneir o'r cyrsiau hyfforddi a fynychwyd. [Y Safon – 5.4]	Eisoes ar droed.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
7. Adolygu a diwygio'r weithdrefn ddogfenedig gyfredol ar gyfer graddnodi i sicrhau bod yr holl offerynnau mesur tymheredd wedi'u graddnodi a'u gwirio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd Rheoliadau Hylendid Bwyd.	28/02/04	6.4 Dylai'r Awdurdod: Adolygu'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i wirio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd Rheoliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 6.2]	Bydd y weithdrefn ddogfenedig gyfredol yn cael ei diwygio i gynnwys argymhellion.
8. Bydd yr Awdurdod yn sefydlu proses rheoli risg i sicrhau bod y gyfradd archwilio o 100% a gyrhaeddwyd yn ddiweddar yn cael ei chynnal ac yn adolygu'r cynnydd yn fisol, chwarterol a blynyddol.	1/01/04	7.10(i) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Gofyniad parhaus. Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â dyddiadau hwyr archwiliadau cyfradd A sydd bellach wedi'u datrys.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
9. Adolygu'r holl gymeradwyaethau cyfredol.	29/02/04	7.10(ii) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod y broses o archwilio a thrwyddedu safleoedd cigyddion ac archwilio a chymeradwyo Safleoedd Cymeradwy yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol perthnasol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gymeradwyaethau cyfredol. [Y Safon – 7.2]	
10. Adolygu a diwygio gweithdrefnau archwilio a thrwyddedu cigyddion cyfredol.	31/01/04		
11. Adolygu a gweithredu'r weithdrefn archwilio ddrafft (ar gyfer safonau bwyd).		7.17(i) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Mae staff wedi'u penodi erbyn hyn felly dylid fod wedi datrys y broblem o beidio â chydymffurfio.
	1/04/04	7.17(ii) Dylai'r Awdurdod: Ddiwygio'r weithdrefn archwilio ddogfenedig ddrafft i gynnwys yr ystod lawn o archwiliadau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a gynhelir a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 7.4]	Parhaus yn unol â'r cynlluniau gweithredu arfaethedig.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
12. Gweithredu'n llawn y Weithdrefn Ymchwilio i Gwynion am Fwyd (ar gyfer hylendid bwyd).	31/01/04	8.6 Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod canlyniad pob ymchwiliad yn cael ei hysbysu i achwynyddion a manwerthwyr. [Y Safon – 8.2]	
13. Ehangu ein cyngor i fusnesau i gynnwys cyngor ar fwydydd anifeiliaid (ar gyfer safonau bwyd).		10.3 Dylai'r Awdurdod: Gynnwys cyngor ar fwydydd anifeiliaid yn ei gyngor i fusnesau. [Y Safon – 10.1]	Yn amodol ar gael adnoddau ar gyfer hyfforddiant.
i Hyfforddi staff ar faethiad bwyd / anifeiliaid.	01/08/04		
ii Nodi a datblygu dulliau o roi cyngor ar borthiant anifeiliaid i fasnachwyr e.e. fforwm bwydydd anifeiliaid anwes.	Ar waith		
iii Sefydlu cysylltiadau gydag Undebau Amaeth ac Is-adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	Cwblhawyd		
iv Rhoi cyngor ar HACCP mewn perthynas â phorthiant anifeiliaid.	Cwblhawyd		

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
14. Dogfennu'r camau gweithredu i'w cymryd wrth dderbyn samplau bwyd anfoddhaol (ar gyfer hylendid bwyd).	31/01/04	12.8(i) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â samplau anfoddhaol yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod. [Y Safon – 12.6]	Dim.
15. Adolygu a gweithredu'r weithdrefn samplu ddrafft (ar gyfer safonau bwyd).	1/04/04		Parhaus yn unol â'r cynlluniau gweithredu arfaethedig.
16. Cadarnhau penodiadau unigolion penodedig.	01/04/05	12.8(ii) Dylai'r Awdurdod: Adolygu a diweddaru penodiadau i swyddi Dadansoddwr Cyhoeddus ac Amaethyddol yr Awdurdod, gan ystyried holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Codau Ymarfer cysylltiedig a Deddf Amaethyddiaeth 1970. [Y Safon – 12.7]	Ar adeg yr awdit roedd dadansoddwr amaethyddol wedi'i benodi, ond nid oeddem wedi cadw copi o'i gymwysterau.
17. Adolygu a gweithredu'n llawn y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i rybuddion unigol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd.	01/01/05	13.5 Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i rybuddion unigol am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 13.2]	

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
18. Darparu'r polisi gorfodi i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal.	30/04/04	15.13(i) Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod ei bolisi gorfodi neu grynodeb cywir ohono ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal. [Y Safon – 15.1]	Cymeradwywyd gan y Cabinet 19/04/04. Polisi i'w gyhoeddi'n eang yn cynnwys ar y rhyngrwyd.
19. Penodi swyddog arweiniol i helpu gyda'r gwaith gorfodi a rhoi hyfforddiant ar weithgareddau gorfodi.	24/02/04	15.13(ii) Dylai'r Awdurdod: Weithredu ei weithdrefnau gorfodi'n llawn i sicrhau bod yr holl weithgareddau perthnasol yn arbennig erlyniadau, rhybuddion ffurfiol, Rhybuddion Gwahardd Brys a Rhybuddion i Wella yn cael eu cyflawni yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2]	
20. Gweithredu a monitro'r holl bolisïau cyfredol a newydd.	31/03/04	16.9 Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am safonau bwyd, ymchwiliadau clefydau heintus, safleoedd cigyddion trwyddedig a Safleoedd Cymeradwy yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a hanes o gydymffurfio. [Y Safon – 16.1]	Dim.

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Unigolyn, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig, a benodwyd yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau o fwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safleoedd gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac a dderbyniodd god adnabod unigryw sy'n berthnasol i fasnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth er enghraifft.
Gwerth Gorau*	Polisi'r Llywodraeth sy'n ceisio gwella perfformiad llywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed i iechyd yr amgylchedd a chynnal a chadw ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu'r cyfraniad mae pobl leol yn ei wneud at benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella trefniadau rheoli ac adolygu busnes awdurdodau • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella wedi disodli hyn yn ddiweddar
Man Archwilio ar y Ffin	Pwynt mynediad i'r DU o wledydd sydd y tu allan i'r UE ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a roddwyd dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi'r ddeddfwriaeth fwyd.
Concordat Gorfodi	Canllawiau'r Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth da y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd ar y cyd â

	busnesau, llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb. Mae'n nodi beth gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau porthiant ar gyfer anifeiliaid fferm a bwyd anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig i wneud dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl i Fwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch a natur lesol bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyno a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd • Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Awdit Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ar gynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith bwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Asiantaeth ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr archwiliadau, samplau ac erlyniadau. Dan y **Cynllun Awdit** bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal awdit o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn erbyn y meini

	prawf a nodir yn y Safon.
Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli rhan o amser swyddog unigol sydd ar gael i wneud swyddogaeth arbennig neu set o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallant fod â chyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn ymwneud â gorfodaeth bwyd.
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system reoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol o ran diogelwch bwyd fod y mesur rheoli'n cael ei gyflawni'n gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Awdurdod Cartref	Yr Awdurdod lle mae canolfan gwneud penderfyniadau perthnasol menter wedi'i lleoli a'r awdurdod sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig â bwyd y cwmni hwnnw.
Rhybudd i wella	Rhybudd sy'n cael ei roi gan Swyddog Awdurdodedig awdurdod lleol dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, yn gofyn i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio rhyng-awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd y cytunwyd arni.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau ar wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.
Adroddiadau OCD	Dychweliadau ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd dan Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae

	busnes yn cynhyrchu neu'n pacio nwyddau neu wasanaethau a lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol sy'n cynnwys pwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig, a benodwyd yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i wneud dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.
Cyfradd risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl risg ac yn penderfynu pa mor aml y dylid archwilio'r safleoedd. Er enghraifft, dylid archwilio safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg o leiaf bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol yn nodi eu cynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o awdurdod lleol sy'n cyflawni, ymhlith cyfrifoldebau eraill, ddyletswyddau gorfodi safonau bwyd a deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (TSO)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a all, ymhlith cyfrifoldebau eraill, orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle mae'r holl swyddogaethau'n cael eu cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.